Chartered Institute of Housing Cymru

# CIPOLWG AR Y SECTOR 2024:

## AROLWG O WEITHWYR TAI PROFFESIYNOL YNG NGHYMRU


Hydref 2024

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau ein ciplun diweddaraf o weithwyr tai proffesiynol yng Nghymru, gan ddadansoddi profiad bywyd y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen mewn rolau rheoli tai.

Mae'n amlinellu'r hyn sydd ei angen ar weithwyr tai proffesiynol i leddfu'r pwysau y maent wedi'u nodi, ochr yn ochr ag archwilio'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Gofynnodd yr arolwg hwn hefyd i ymatebwyr nodi'r mesur mwyaf effeithiol y dylai Llywodraeth Cymru ei weithredu i ddatrys yr argyfwng tai.

Cynhaliwyd yr arolwg dros wyth wythnos yn ystod egwyl haf 2024 a derbyniwyd cyfanswm o 181 o ymatebion. Mae'r ymatebwyr yn gweithio yn y meysydd a nodwyd a ganlyn:




Roedd ystod eang o ymatebwyr, o aelodau timau gweithredol i bobl mewn rolau swyddogion tai, gweithwyr cefnogi a gweithwyr cynnal a chadw. Bu i ni dderbyn ymatebion hefyd gan bobl sy'n gweithio mewn timau cyllid, llywodraethu ac adnoddau dynol hefyd. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r tueddiadau allweddol yn yr ymatebion a dderbyniwyd.

# Crynodeb gweithredol

Fel gyda'r arolygon blaenorol, nododd y mwyafrif o ymatebwyr mai eu prif gymhelliant dros weithio yn y sector tai yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Pan ofynnwyd iddynt am flaenoriaethau tai a sut yr oeddent yn credu y gellid datrys digartrefedd, ymateb cyffredin oedd i nodi'r angen am gyflenwad cynyddol o gartrefi fforddiadwy a chefnogaeth ddigonol i unigolion allu cynnal eu tenantiaeth. Er gwaethaf hyn nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn hyderus y byddai'r targed presennol o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel yn ystod tymor y Senedd hon yn cael ei gyflawni. Roedd hyn oherwydd diffyg cyllid ar gyfer y rhaglen, ynghyd â chyfyngiadau cynllunio a phrinder sgiliau.

Nodwyd y cyfyngiadau ariannu hyn ynghyd â newidiadau polisi parhaus fel pwysau allweddol a wynebir gan weithwyr tai proffesiynol. Amlygodd rhai ymatebwyr fod angen i gyfradd y newid i'r system dai yng Nghymru fod yn realistig. Nododd rhai ymatebwyr o awdurdodau lleol fod llawer o bwysau arnynt o fewn amserlenni tynn a nodwyd yn aml mai ychydig iawn o wybodaeth am realiti ymarferol gweithio mewn lleoliad gweithredol sydd gan y rhai a ofynnodd am y newid. Mae angen mwy o adnoddau i leddfu'r pwysau a wynebir o ganlyniad i gyflymder y newid y mae Llywodraeth Cymru ei eisiau.

Adroddodd gweithwyr tai proffesiynol sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol effaith andwyol ehangach ar eu hiechyd meddwl a'u lles oherwydd toriadau cyllid a newidiadau polisi o gymharu â'r rhai sy'n gweithio mewn cymdeithasau tai. Dywedodd ymatebwyr fod eu sefydliadau'n darparu cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles, er na fanteisiodd rhai ar y cymorth hwn oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd.

Roedd yr ymatebwyr yn hynod o glir o ran yr hyn yr oeddent am ei ofyn i Lywodraeth Cymru. Maen nhw eisiau mwy o gyllid ac i Lywodraeth Cymru fod yn realistig wrth gyflwyno ein deddfwriaeth a'n polisïau newydd. Aeth rhai ymhellach a dweud y dylai tai fod yn brif flaenoriaeth i'r llywodraeth a bod yr amser wedi dod i roi'r flaenoriaeth bennaf i dai.

# Canfyddiadau'r arolwg

## Beth yw eich cymhelliad dros weithio yn y sector tai?

Y prif gymhelliad dros weithio yn y sector oedd gwneud gwahaniaeth, gydag 77 y cant o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gweithio ym maes tai i helpu pobl a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Amlygodd eraill y sicrwydd cyflogaeth yr oedd tai yn ei roi iddynt, cael eu hysgogi gan awydd i roi diwedd ar ddigartrefedd, a'r gred y dylai tai fod yn hawl i bawb.


*"Helpu darparu cartrefi o ansawdd da y gall tenantiaid fod yn falch ohonynt a helpu sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen."*

*"Y gallu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, sicrhau bod pobl yn cael cartref digonol, darparu cymunedau ffyniannus. Rhoi cartref sefydlog a rhwydwaith cefnogi i bobl sy'n ddifreintiedig ac yn agored i niwed."*

## O ran tai, beth yw'r brif flaenoriaeth i chi?

Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi cymdeithasol oedd y brif flaenoriaeth tai i 39 y cant o'r ymatebwyr. Roedd darparu gwasanaethau cefnogi i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cynnal eu cartref a ffynnu yn eu cymunedau hefyd yn ffactor pwysig ac amlwg. Amlinellir yr holl flaenoriaethau yn ffigur un.


Ffigur un: Y brif flaenoriaeth tai ar gyfer ymatebwyr




*"Cyflenwad. Nid oes unrhyw newid i ddeddfwriaeth yn mynd i roi diwedd ar ddigartrefedd - yr hyn sydd ei angen arnom yw cyflenwad digonol o gartrefi i bawb sydd angen un. Nid yw hyn yn golygu rhannu tŷ hunangynhwysol yn unig ond tai a rennir o ansawdd da ac wedi'u rheoli'n dda."*

# Pa fesurau ychwanegol ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i fynd i'r afael yn ddigonol â digartrefedd yng Nghymru?

Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr, mewn cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, fod angen mwy o gartrefi i fynd i'r afael yn ddigonol â digartrefedd yng Nghymru. Dangosodd y canlyniadau i ymatebwyr o gymdeithasau gredu bod angen mwy o gefnogaeth i helpu pobl i gynnal tenantiaeth er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd. Mae Ffigur dau yn nodi'r holl fesurau a nodwyd gan ymatebwyr i fynd i'r afael â digartrefedd yn ddigonol.




Roedd consenswS eang ymhlith ymatebwyr mai prif faint y cartrefi sydd eu hangen yw eiddo un ystafell wely ac, mewn rhai ardaloedd, cartrefi teuluol mwy gyda phedair ystafell wely neu fwy.


> *"Adeiladu eiddo pedair ystafell wely a mwy i gartrefu teuluoedd mwy/cymysg. Mae hyn yn rhywbeth anaml y mae awdurdodau lleol yn rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ond yn y mwyafrif o achosion byddai'n rhyddhau eiddo llai i'w hailosod."*

> *"Mae angen i ni adeiladu mwy o eiddo un ystafell wely"*

# Pa mor hyderus ydych chi y bydd y sector tai'n cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel erbyn Mawrth 2026?


Fel y dangosir yn ffigur tri, nid yw mwyafrif yr ymatebwyr (71 y cant) yn hyderus nac yn sicr y bydd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel yn cael ei gyrraedd.

Ffigur tri: Lefel hyder wrth gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol





Gwnaethom archwilio ymhellach lefel yr hyder o fewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar wahân a nodwyd y canlynol:

**Nid yw 65 y cant** o ymatebwyr o gymdeithas tai yn hyderus neu'n sicr y bydd y targed yn cael ei gyrraedd




**Nid yw 82 y cant** o ymatebwyr o awdurdod lleol yn hyderus neu'n sicr y bydd y targed yn cael ei gyrraedd.





Wrth edrych ar lefel swydd ymatebwyr o fewn eu sefydliadau, amlygodd y canlyniadau nad oedd 70 y cant o ymatebwyr a oedd mewn swydd arweinyddiaeth uwch yn hyderus y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd.

# Beth yw eich rhesymau dros eich lefel hyder o ran cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel erbyn Mawrth 2026?

Er bod yr ymatebion yn cydnabod y darparwyd y lefelau ariannu uchaf erioed i ddatblygu cartrefi newydd, dywedodd ymatebwyr y bydd angen mwy o gyllid i gyrraedd y targed. Mae hyn oherwydd pwysau eraill ar gyllidebau fel SATC 2023. Mae Ffigur pedwar yn rhoi dadansoddiad o'r rhesymau dros ddiffyg hyder ac ansicrwydd o ran cyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel.

Ffigur pedwar: Rhesymau dros ddiffyg hyder wrth gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol.




Er i ni glywed tystiolaeth anecdotaidd am yr effaith y mae cyfyngiadau cynllunio a phrinder sgiliau yn ei chael ar ddatblygu yng Nghymru, cyfeiriodd ychydig dros un o bob deg o'r ymatebwyr yn unig at y materion hyn fel rhesymau dros lefel eu hyder. Er hynny, darparodd y naratif yn yr ymatebion rywfaint o gyd-destun ychwanegol am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddatblygu cartrefi ynghyd â'r cyfyngiadau ariannu.


> *"Mae'n anodd oherwydd mae llawer o oedi yn y broses ddatblygu ar hyn o bryd (gyda chynllunio'n achosi oedi anferth). Felly, pedair blynedd ar gyfartaledd yw'r amser y mae'n ei gymryd o nodi tir i'r cam cwblhau ymarferol"*

> *"Y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad, ond mae heriau o hyd o ran argaeledd tir, oedi o ran cynllunio a chostau cynyddol deunyddiau. Bydd pwysau eraill ar y sector megis SATC 2023 hefyd yn arwain at bwysau ariannol cynyddol ar landlordiaid. Dim ond tua 6,000 o eiddo sydd wedi'u darparu ers 2021 felly mae cyflawni 20,000 yn debygol o fod yn heriol iawn o ystyried ffactorau dylanwadol eraill."*

> *"Mae cymdeithasau tai o dan bwysau oherwydd datgarboneiddio a Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Mae costau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae yna brinder sgiliau oherwydd diffyg buddsoddiad hanesyddol yn y gweithlu a diffyg cyllid i ymchwilio i ddulliau adeiladwaith modern."*

## Beth yw rhai o'r pwysau rydych yn eu hwynebu yn eich rôl ar hyn o bryd?

Mae ychydig dros un o bob pump (21 a 22 y cant) gweithiwr tai proffesiynol mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn wynebu pwysau oherwydd llwythi gwaith uchel. Mae hyn yn sylweddol is na'r 43 y cant o ymatebwyr yn [Cipolwg ar y Sector: Arolwg o weithwyr tai proffesiynol yng Nghymru 2023](). Ac eto, mae pryderon ariannol a diffyg adnoddau ar lefelau tebyg eleni i 2023, gyda'r diffyg adnoddau yn 2024 yn cael mwy o effaith ar y rhai sy'n gweithio o fewn cymdeithasau tai. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol yn fwy tebygol o deimlo pwysau oherwydd newidiadau mewn polisi.




Mae bron i un o bob deg gweithiwr tai proffesiynol mewn cymdeithasau tai yn nodi nad ydynt o dan unrhyw bwysau o gymharu â dau y cant yn unig o weithwyr tai proffesiynol mewn awdurdodau lleol.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod uno parhaus yn cynyddu eu llwythi gwaith.

> *"Rydym ar hyn o bryd yn mynd trwy gyfuniad sydd wedi creu pwysau gwaith ychwanegol."*

Cafwyd sylwadau pellach ar effaith prinder staff, oedi o fewn y system gynllunio ac effaith newidiadau polisi ar weithluoedd awdurdodau lleol.

> *"Mae'r oedi sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio oherwydd diffyg adnoddau yn yr awdurdodau lleol yn achosi pwysau aruthrol. Rydym hefyd yn cael trafferth gyda'r diffyg contractwyr sydd ar gael i adeiladu cynllun."*

*"Ôl-groniad o waith oherwydd prinder staff. Mae'r tâl yn isel ac nid yw staff yn cael eu cymell am eu bod yn boddi yn y gwaith a ddim hyd yn oed yn ailgartrefu neb."*

*"O ran disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae angen i gyfradd y newid a ddymunir fod yn fwy realistig, mae gormod yn cael ei ofyn o ALlau mewn cyfnodau byr o amser ac yn aml, mae newidiadau'n cael eu gorfodi, gan adael staff yn teimlo wedi'u llethu gan y cyflymder, yn rhwystredig am ei fod yn amlwg weithiau na fydd polisïau newydd byth yn gweithio, neu y byddant yn anodd i'w gweithredu gan mai ychydig o brofiad gweithredol sydd gan yr awduron mewn rhai meysydd gwaith tai ac maent yn agored i feirniadaeth gan gymunedau lleol sy'n methu â deall pam fod rhai newidiadau'n cael eu gwneud."*

## Sut fyddech chi'n mynd i'r afael â rhai o'r pwysau hyn?

Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn glir bod angen mwy o gyllid i leddfu rhai o'r pwysau. Mae angen cynyddu'r gweithlu hefyd gan fod llwythi gwaith mawr a maint llwythi gwaith achosion yn effeithio'n sylweddol ar bobl, gan adael rhywfaint o deimlad eu bod bellach wedi cyrraedd penllanw. Nododd rhai fod cynnydd mewn staff yn annhebygol o ddigwydd wrth i gyllid barhau i gael ei leihau.

*"Mae ein cyllidebau wedi cael eu torri flwyddyn ar ôl blwyddyn ac er bod ein llwyth gwaith yn cynyddu, nid ydym yn cael dim adnoddau ychwanegol. Mae angen adnoddau ychwanegol arnom. Mae Deddf Rhentu Cartrefi Cymru wedi cael ei gweithredu, sy'n golygu ein bod wedi gorfod gwneud cynifer o newidiadau, gydag effaith fawr ar staff a morâl."*

*"Mae angen i ni ddiogelu ein busnes at y dyfodol gyda gweithwyr proffesiynol ifanc, medrus ac eiddgar ond flwyddyn ar ôl blwyddyn dywedir wrthyn ni na allwn gynyddu adnoddau. Mae llwythi achosion gwaith swyddogion yn cael eu hymestyn i'r brig ac ni allwn gynnig y gwasanaeth o safon a wnaethom unwaith, er bod y staff yn gwneud eu gorau. Yn union fel y GIG, rydym yn cael ein hymestyn i'r brig. Mae gennyf weithlu sy'n heneiddio hefyd; ni all staff weithio ar yr un cyflymder ag yr oeddent ac ni allant ymddeol oherwydd y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth."*


*"MWY O STAFF. Mae gennym lwythi gwaith cwbl afresymol, mae nifer y cyflwyniadau'n cynyddu, mae nifer y staff yn mynd i lawr. Mae ymosodedd gan y cyhoedd yn uwch gan fod y gwasanaeth yn araf ac mae diffyg canlyniadau cadarnhaol yn golygu nad yw pobl yn hapus. Mae lefelau straen staff yn annerbyniol o uchel."*

*"Ni allwn newid polisi'r llywodraeth dros nos, felly mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r ffordd orau o weithio o gwmpas y polisïau. Mae'r llwyth gwaith mawr yn broblem wirioneddol - rydym wedi bod yn wynebu hyn ers rhai blynyddoedd bellach ac wedi lleihau'r ddarpariaeth lle bo modd, nid oes llawer mwy nag y gellir ei leihau. Y sefyllfa orau fyddai staff ychwanegol, ond mae hyn yn annhebygol."*

# Pa effaith y mae'r pwysau hyn yn ei chael ar eich iechyd meddwl a'ch lles?

Mae'r pwysau a wynebir gan weithwyr tai proffesiynol yn cael mwy o effaith ar iechyd meddwl a lles unigolion sy'n gweithio o fewn awdurdodau lleol, gydag 20 y cant yn nodi effaith fawr ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Yn ogystal, mae 48 y cant o ymatebwyr sy'n gweithio mewn awdurdod lleol yn nodi bod y pwysau'n cael effaith gymedrol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Ar gyfer ymatebwyr mewn cymdeithasau tai, mae 9 y cant yn nodi effaith fawr a 30 y cant yn nodi effaith gymedrol. Mae hyn yn cefnogi'r hyn rydym wedi bod yn ei glywed gan y sector am yr effaith y mae'r pwysau cynyddol yn ei chael ar y gweithlu yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol. Mae Ffigur chwech yn darparu dadansoddiad llawn.




Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi mwy o fanylion am yr effaith yr oedd y pwysau yn ei chael ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio ar frwydrau i gydbwyso llwythi gwaith, ofnau ynghylch colli swyddi, trawma dirprwyol, ac effaith ar iechyd meddwl o fewn timau.

> *"Mae llwythi achosion mawr a storïau trawmatig gan y rhai mwyaf agored i niwed yn cael effaith anferth ar les staff"*

> *"Mae lefelau straen uchel yn y swyddfa felly mae staff yn aml i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch sy'n effeithio'n negyddol ar y staff sydd yn y swyddfa gan fod yn rhaid iddynt wneud dwbl y llwyth gwaith."*


*“Dydw i ddim bob amser yn ennill digon i dalu fy miliau, gan arwain at straen gartref. Rwyf hefyd yn poeni am rai o’r bobl rwy’n cael fy ngorfodi i’w cartrefu, gan fy mod yn eu rhoi drws nesaf i bobl agored i niwed na ddylent gael eu cartrefu drws nesaf, ond gan eu bod yn byw mewn llety dros dro nid oes gennyf ddewis.”*

*“Mae’r rôl yn un llawn straen. Yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am yr holl ddiwygio deddfwriaethol heb fawr ddim cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae pob awdurdod lleol dan bwysau cyllidebol enfawr – mae hyn yn cael ei fwydo i lawr i bob swyddog rheng flaen sy’n teimlo rhwng craig a lle caled, yn ceisio cyflawni dyletswyddau statudol heb unrhyw adnoddau”*


## A oes unrhyw ffactorau eraill sy'n effeithio'n negyddol ar eich iechyd meddwl a'ch lles?

Efallai nad yw’n syndod i rai ymatebwyr fod yna ffactorau eraill a oedd hefyd yn effeithio ar eu hiechyd meddwl a’u lles. Y gyfran fesul math o sefydliad oedd:

**25 y cant** o ymatebwyr mewn cymdeithasau tai




**37 y cant** o ymatebwyr mewn awdurdodau lleol





Roedd ffactorau eraill yn cynnwys materion iechyd teuluol, pwysau ariannol oherwydd yr argyfwng costau byw, ansicrwydd swyddi oherwydd contractau tymor byr a theimlo y dylent fod yn gwneud mwy i helpu'r rhai sy'n cysylltu â'u gwasanaeth.


# A yw eich sefydliad yn darparu cymorth ar gyfer eich iechyd meddwl a'ch lles?

Mae'n galonogol gweld mwyafrif yr ymatebwyr yn datgan bod eu sefydliad yn darparu cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles gyda chanfyddiadau'n dangos bod hyn yn wir ar gyfer:


**84 y cant** o ymatebwyr mewn cymdeithasau tai




**81 y cant** o ymatebwyr mewn awdurdodau lleol




Mae'r math o gymorth sy'n cael ei ddarparu wedi'i amlinellu yn ffigur saith.




Mae'r ymatebwyr hynny sy'n gweithio mewn cymdeithas tai yn fwy tebygol o fod â mynediad at weithio hyblyg a gwasanaethau cwnsela na'r rhai sy'n gweithio mewn awdurdod lleol. Mae gan ymatebwyr mewn awdurdodau lleol fwy o fynediad at wasanaethau sy'n helpu gyda rheoli straen er y gallai hyn o bosibl adlewyrchu'r gyfran uwch o ymatebwyr y mae eu hiechyd meddwl wedi'i effeithio gan y pwysau y maent yn eu hwynebu.

Darparodd rhai ymatebwyr rywfaint o naratif ynghylch y cymorth y maent yn ei gael.

*"Mae gennym ni dîm Lles yr wyf yn rhan ohono, ac rydym yn trefnu diwrnodau llesiant lle nad oes disgwyl i neb weithio. Mae hyblygrwydd yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn y cwmni hwn."*

> *"Mae gennym ni grŵp 'llesiant' penodol sy'n mynd ati i hyrwyddo iechyd meddwl a lles trwy lwyfannau amrywiol. Rydym yn cynnal diwrnodau llesiant trwy gydol y flwyddyn i staff."*

Nododd rhai ymatebwyr, er bod cymorth a chefnogaeth ar gael, na fyddent yn ei ddefnyddio gan nad oeddent yn siŵr pa mor ddienw fyddai'r gwasanaeth.

## Pa ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eich iechyd meddwl a'ch lles?

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gyfyngedig i'w gwaith, gan alluogi ymatebwyr i gynnwys ffactorau y tu allan i'r gwaith sy'n cael effaith gadarnhaol. I'r mwyafrif o ymatebwyr, gweithio hyblyg a'r gallu i gydbwyso gwaith a bywyd cartref yn effeithiol oedd y brif effaith gadarnhaol. Dilynwyd hyn yn agos gan wybod y gallent ddibynnu ar eu tîm a chael eu cefnogi ganddo.

> *"Rwy'n gweithio wythnos oriau cywasgedig, felly 37 awr dros 4 diwrnod sy'n rhoi penwythnos hirach i mi ac felly mwy o amser i ymlacio a dilyn fy niddordebau."*


> *"Yr oriau gwaith hyblyg. Cael rheolwr a thîm cefnogol iawn, mae hyn yn dod yn syth o'r brig."*

> *"Gweithio gyda thîm gwych a rheolwr llinell sy'n deall, hefyd cael oriau gwaith hyblyg i weithio, trefnu apwyntiadau/bywyd teuluol."*

> *"Ysbryd tîm ... heriau newydd a dysgu sgiliau newydd ... goruchwyliaeth a chael cefnogaeth un-i-un gyda'ch rheolwr i ddadlwytho straen neu bryderon."*

## Beth yw'r un peth y byddech yn gofyn i Lywodraeth Cymru ei wneud mewn perthynas â thai yng Nghymru?

Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr eisiau i Lywodraeth Cymru gynyddu cyllid ar draws ystod o wasanaethau a mentrau. Mae hyn yn cynnwys adeiladu tai, datgarboneiddio'r stoc dai bresennol a sicrhau bod sefydliadau'n cyflogi'r niferoedd cywir o bobl.




Fel y dangosir yn ffigur wyth, roedd 21 y cant o ymatebwyr eisiau i lywodraeth Cymru fod yn realistig o ran yr hyn y mae'n gofyn i'r sector ei wneud mewn perthynas â newid polisïau a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, a gwrando pan fydd y sector yn codi materion ynghylch newidiadau polisi arfaethedig.

> *"Bod yn realistig o ran yr hyn y maent yn ei ofyn wrth gyflwyno deddfwriaeth neu bolisïau newydd ac ati."*

> *"Ymgysylltu â nifer o sefydliadau ar draws y sector cyn rhoi newidiadau enfawr ar waith, mae'r newidiadau gan Lywodraeth Cymru bob amser â'r bwriad iawn ond yn aml heb eu cynllunio'n ofalus."*

> *"Datblygu tîm prosiect trefnus i edrych ar ddod o hyd i lety addas, cynaliadwy a chost-effeithiol i bobl sengl am fod y galw am hyn o beth wedi cynyddu'n fawr ers Covid-19"*

## Pethau i fyfyrio arnynt

Mae’n amlwg unwaith eto bod pobl yn gweithio ym maes tai am eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl a’r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt a gyda nhw. Ac eto, mae diffyg cyllid, blaenoriaethau sy'n gwrthdaro am y cyllid sydd ar gael, newidiadau polisi a phrinder adnoddau staff yn y sector yn cael effaith wirioneddol ar iechyd meddwl a lles gweithwyr tai proffesiynol.

I rai daw’r pwysau hwn gan Lywodraeth Cymru ei hun, y mae ymatebwyr yn dweud ei bod yn gweithredu newidiadau mewn polisi heb ymgysylltu’n llawn â’r sector neu/a heb ddeall ochr weithredol tai yn llawn. Mae hyn, ynghyd â diffyg cyllid i sicrhau gweithlu o faint digonol i ddarparu gwasanaethau, yn ychwanegu lefelau sylweddol o bwysau at dimau tai, gan olygu bod rhai bellach wedi cyrraedd penllanw. Mae angen i ni ariannu’r sector yn ddigonol a sicrhau bod y gweithlu ar lefel lle y gall ddarparu gwasanaethau tai statudol a newidiadau polisi yn effeithiol, gyda’r effaith leiaf bosibl ar iechyd meddwl a lles gweithwyr tai proffesiynol.

Nawr yw’r amser i fuddsoddi yn y gweithlu tai i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i gyflwyno’r darn ehangach o waith sydd ei angen i ddatrys yr argyfwng tai yng Nghymru. Fel y crynhodd un ymatebwr, nawr yw’r amser i roi'r flaenoriaeth bennaf i dai. Rhaid i adnoddau digonol ar gyfer y gweithlu tai fod yn rhan annatod o'r ymdrech hon.

*“Nid yw tai yn ôl-ystyriaeth. Dylai hyn fod yn un o’r blaenoriaethau pennaf yng Nghymru ac yn y DU. Gyda'r tai cywir ar gael, efallai y bydd yr angen am wasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn lleihau. Mae’n bryd rhoi'r flaenoriaeth bennaf i dai.”*

Chartered Institute of Housing Cymru

Diolch am eich amser a'ch diddordeb yn yr adroddiad hwn.

Os hoffech chi drafod unrhyw un o'r themâu neu'r pynciau ymhellach, neu roi adborth ar yr adroddiad hwn, cysylltwch ag awduron yr adroddiad:



**Cerys Clark CIHCM**
Rheolwr polisi a materion cyhoeddus
CIH Cymru
cerys.clark@cih.org



**Matthew Dicks CIHCM**
Cyfarwyddwr cenedlaethol
CIH Cymru
Matthew.dicks@cih.org

**CIH Cymru**

**Ffôn:** 024 7685 1700
**E:** wales@cih.org
**X** @CIHCymru

www.cih.org

0367 © CIH. All rights reserved.